

Grŵp Cyngtori ar Faterion Moesol a Moesgol COVID-19: Cymru
Dydd Iau 25 Mehefin 2020 16:00-17:30

Trwy Skype

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb
1. Casglu adborth ar y ddogfen cyngor cyfreithiol ar ddiwedd Gorffennaf/Awst ac adolygu sut y mae'n cael ei chymhwyso.	
2. Gohiriwyd trafodaeth ar ofalwyr tan y cyfarfod nesaf	
3. Gofyn i'r tîm olrhain beth yw'r statws presennol yng Nghymru.	

Yn bresennol

Heather Payne (Cadeirydd), Aled Roberts, Aled Edwards, Alison Mawhinney, Alison Parken, Chantal Patel, Rachel Davies, Carol Wardman, Ilora Finlay, Helena Herklots, Kevin Francis

Nodyn o'r Cyfarfod

Rhif	Pwnc
1.	<p><u>Croeso, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau</u></p> <p>Gwnaeth y Cadeirydd bawb gyflwyniadau a nodi ymddiheuriadau. Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Idris Baker, Vivianne Harwood, Emma Bennett, Shavanah Taj a Lisa Gerson.</p>
2.	<p><u>Cofnodion blaenorol</u></p> <p>Cytunwyd ar y cofnodion.</p> <p>Camau gweithredu Ilythyr eglurhaol - diolch i'r tîm a ddatblygodd y llythyr eglurhaol ar gyfer cyngor cyfreithiol. Cafodd ei ystyried gan nifer o fforymau ac mae'n dechrau cael ei ddefnyddio. Mae adborth wedi nodi bod clinigwyr yn dweud nad yw gofal ar y lefel uchaf o bosibl oherwydd Covid-19. Cytunwyd y dylai'r ddogfen gael ei defnyddio ac y dylid cnoi cil arni yn y dyfodol agos er mwyn deall sut y mae clinigwyr yn ei defnyddio Cam gweithredu - Casglu adborth ar ddiwedd Gorffennaf/Awst ac adolygu sut y mae'n cael ei chymhwyso.</p> <p>Profi, olrhain a diogelu - yn dilyn gwiriadau, mae gweithdrefnau diogelwch ar waith. Cynhaliodd y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl sesiwn gyda'r tîm digidol ac mae is-grŵp wedi'i ffurfio i fynd i'r afael â phryderon a materion ynghylch cyfathrebu gan gynnwys sgamiau. Credir bod cyfathrebu priodol yn hynod o bwysig. Mae'r pandemig wedi tanlinellu'r anfantais bellach sy'n wynebu'r rhai sydd eisoes o dan anfantais oherwydd effaith Covid-19.</p>
3.	<p><u>Papur ar Ofalwyr</u></p> <p>Roedd Kate Young i fod yn bresennol i siarad am yr effaith ar ofalwyr. Yn anffodus nid oedd Kate yn gallu ymuno a hynny oherwydd problemau technoleg. Cytunwyd ad-drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.</p>

4.

Papur ar y cynllun adfer

Cytunodd y grŵp fod angen papur ynghylch y fframwaith moesegol. Cyflwynwyd dau bapur. Diben y naill oedd darparu cyflwyniad cyffyrddiad ysgafn gyda'r gwerthoedd ynghlwm. Mae'r grŵp am sicrhau eu bod yn osgoi ailadrodd ac y byddai'r ddau'n cael eu cyhoeddi fel pâr.

Ailddechrau Gwasanaethau: Cymhwyso'r fframwaith o Werthoedd ac Egwyddorion ar gyfer gofal iechyd

Codwyd ymholiadau ynghylch a oes angen inni benderfynu ar ganllawiau ar gyfer ymchwydd newydd neu ar gyfer gwasanaethau sy'n digwydd yn awr. Dylai terminoleg gryfach gael ei newid o "dylai." Gofynnwyd hefyd am y term claf mewnol o ran a yw'n golygu mynd i mewn i'r ysbyty.

Mae Asesiadau Effaith yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb. Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchoddedig, mae'n ofyniad cyfreithiol ac mae angen adlewyrchu hyn.

Nodwyd bod y ddogfen drafftio yn cynnwys iaith ddi-flewyn-ar-dafod, ond dadleuwyd y bydd meddygon yn ymateb iddi. Y gynulleidfa fydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ailddechrau gwasanaethau, ac felly bernir bod yr iaith yn briodol.

Y model bio-seicogymdeithasol - mae'r model hwn a'r model cymdeithasol yn wahanol ac mae angen eu hystyried yn gysyniadau ar wahân. Byddai cydgynhyrchu'n sbarduno cwestiynau i ddeall y materion cymdeithasol sy'n effeithio ar bobl ynghylch eu hiechyd.

Cam gweithredu – yr holl aelodau i anfon sylwadau at y Cadeirydd erbyn dydd Mawrth 30 Mehefin.

Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion

Awgrymiadau i'w defnyddio gan GIG Cymru i arwain penderfyniadau a blaenoriaethu gwasanaethau iechyd yn ystod llacio'r cyfyngiadau symud

Bwriedir i'r ddogfen hon cyd-fynd â'r ddogfen gyntaf a rhoi enghreifftiau i'w cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio.

Mae hawliau o ran y Gymraeg yn ymwneud a mwy na chyfathrebu. Angen hawliau, dymuniadau a phryderon gan y gall iaith effeithio ar ofal. Tynnwyd sylw at y gymuned ehangach a'r sector gwirfoddol, ond angen sylweddoli bod terfyn ar yr hyn y gall y sector gwirfoddol ei wneud hen adnoddau. Angen deall ble mae'r penderfyniadau am gyllido yn cael eu gwneud.

O dan 'Keeping things in Proportion' - cynhwysir y risgiau i'r staff ond dylai fod yn gysylltiedig â'r arf asesu ac adroddiad diweddar yr is-grŵp BAME. Mae'r astudiaethau diweddar gan ONS wedi tanlinellu nifer y marwolaethau ymhlith pobl anabl yn enwedig menywod. Ychydig o gyfeiriadau at grwpiau 'agored i niwed' a allai gael eu disodli gan 'mewn risg'

Mae'r rhai sy'n rhoi'r gorau i warchod eu hunain mewn risg o'r gymuned ehangach, sydd i bob golwg, yn pryderu'n llai am effaith lledaeniad y feirws. Mae negeseuon lechyd y Cyhoedd yn bwysig iawn gan y bydd diwedd gwarchod yn gweld diwedd blaenoriaeth a chymorth

	<p>Mae'r cyngor am warchod yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae gweithlu yn cael ei ystyried ynghylch materion gwarchod ar gyfer materion tymor hir. Mae angen ystyried y tymor hwy ac ail frig ar wahân.</p> <p>Mae olrhain ac ymddiriedaeth yn bwynt allweddol. Cwestiwn allweddol a fydd y rhai sy'n profi'n bositif yn darparu'r wybodaeth ofynnol. Nid moeseg yr ap yw'r unig fater. Mae ei effeithiolrwydd yr un mor bwysig.</p> <p>Mae nifer o apiau'n cael eu datblygu. Beth y mae Cymru'n ei ddefnyddio? ZOE, NHSX, etc.</p> <p>Cam gweithredu - Gofyn i'r tîm olrhain beth yw'r statws presennol yng Nghymru. Gofyn am adroddiad.</p> <p>Cam gweithredu - yr aelodau i anfon sylwadau erbyn dydd Mawrth nesaf,</p> <p>Pan fydd y dogfennau hyn ar eu ffurf derfynol bydd y grŵp yn edrych ar ddatblygu dogfen newydd yn seiliedig ar lwybr adfer gan ganolbwyntio ar wasanaethau cyhoeddus ehangach.</p>
5.	<p>Y Cyfarfod Nesaf Cytunwyd cyfarfod eto mewn pythefnos.</p>